Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2022-26 Cynllun Gweithredu

Mae ein Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai yn nodi cyfeiriad strategol y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd a chymorth cysylltiedig â thai, rhwng 2022 a 2026.

Mae'r Strategaeth yn nodi chwe Blaenoriaeth Strategol, gydag amcanion cysylltiedig. Y chwe blaenoriaeth strategol yw:

**Blaenoriaeth Strategol 1: Cynyddu'r cyflenwad o lety addas i ddiwallu anghenion tai ymgeiswyr**

**Blaenoriaeth Strategol 2: Gweithredu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym**

**Blaenoriaeth Strategol 3: Darparu gwasanaeth hygyrch, hyblyg ac ymatebol i ddiwallu anghenion, drwy weithlu medrus sy'n cael ei werthfawrogi**

**Blaenoriaeth Strategol 4: Gwella cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ar lefel strategol i wella atal digartrefedd**

**Blaenoriaeth Strategol 5: Gwella a chynyddu'r gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymhleth**

**Blaenoriaeth Strategol 6: Mabwysiadu dull pendant, cydweithredol ac amlddisgyblaethol i gefnogi pobl sy'n cysgu allan**

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi pob Blaenoriaeth Strategol ac yn gosod camau gweithredu penodol a fydd yn cael eu datblygu, gyda'r nod o gyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion a bennir.

| **Blaenoriaeth Strategol 1: Cynyddu'r cyflenwad o lety addas i ddiwallu anghenion tai ymgeiswyr** | | | |
|---|---|---|---|
| Amcan | Gweithred | Cyfrifoldeb | Amserlen Darged |
| • Cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol addas, sydd ar gael i ddiwallu angen lleol. | • Gweithio gydag LCC i ddefnyddio ffrydiau incwm cyfalaf, fel y Grant Tai Cymdeithasol i gynyddu'r stoc o dai cymdeithasol addas. | CBSP, LCC | Rhagfyr 2026 |
| • Cynyddu argaeledd eiddo addas yn y sector rhentu preifat. | • Lle bynnag y bo'n bosibl gweithio gyda LCC i ail-bwrpasu'r stoc bresennol er mwyn diwallu angen lleol yn y modd gorau. | CBSP, LCC | Rhagfyr 2026 |
| • Hyrwyddo ac annog prydlesu neu rentu eiddo yn y sector preifat ac ymgysylltiad parhaus â landlordiaid yn y Sector Rhentu Preifat. | • Defnyddio ffrydiau ariannu sydd ar gael, gan gynnwys Grantiau Eiddo Gwag i ddod ag Eiddo Gwag yn ôl i ddefnydd. | CBSP, Landlordiaid Sector Preifat | Rhagfyr 2026 |
| | • Parhau i ddarparu gwasanaeth rhentu preifat ac ehangu'r ddarpariaeth. | CBSP, Landlordiaid Sector Preifat | Cynllun prydlesu newydd i'w fabwysiadu erbyn Ebrill 2024 |
| • Gweithio gyda phartneriaid LCC i sicrhau'r defnydd gorau o'r stoc bresennol i ddiwallu angen lleol. | • Archwilio cynlluniau sy'n cymell landlordiaid sector preifat i sicrhau bod eu stoc ar gael i'w defnyddio i atal a lleddfu digartrefedd. | CBSP, Landlordiaid Sector Preifat | Rhagfyr 2026 |
| | • Ailgynnau'r fforwm landlordiaid preifat lleol. | CBSP, Landlordiaid Sector Preifat | Gorffennaf 2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Parhau i ymgysylltu'n barhaus â LCC drwy gyfarfodydd gweithredol a strategol.<br><br>• Datblygu atebion pwrpasol i ddiwallu'r anghenion tai a nodwyd gan y rhai sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd.<br><br>• Archwilio modelau perchnogaeth newydd ar gyfer tai fforddiadwy.<br><br>• Sicrhau ymgysylltiad â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r Cynllun Datblygu Lleol i adlewyrchu'r anghenion a nodwyd ar gyfer ychwaneg o unedau ac ar gyfer anghenion Grant Cymorth Tai. | CBSP, LCC<br><br>CBSP, LCC<br><br>CBSP<br><br>CBSP | Rhagfyr 2026<br><br>Rhagfyr 2026<br><br>Rhagfyr 2026<br><br>Parhaus |

| **Blaenoriaeth Strategol 2: Gweithredu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym** | | | |
|---|---|---|---|
| Amcan | Gweithred | Cyfrifoldeb | Amserlen (Tymor byr <1 flwyddyn, Tymor canol 1-2 flynedd, Tymor hir >3 blynedd) |
| • Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i weithredu'r gwahanol | • Mabwysiadu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 5 mlynedd a sicrhau bod ei bwrpas a'i rôl wrth gefnogi digartrefedd | CBSP, LCC, Darparwyr Comisiynedig | Cynllun i'w fabwysiadu erbyn Rhagfyr 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| elfennau fel y'u nodir yn y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.<br><br>• Atal digartrefedd a'r angen am lety dros dro.<br><br>• Lleihau'r angen am lety dros dro a lle bo angen, lleihau faint o amser y mae aelwydydd yn ei dreulio mewn llety dros dro.<br><br>• Datblygu model yn seiliedig ar ddata cadarn, gyda thystiolaeth glir o angen. | yn cael ei ddeall yn glir gan yr holl randdeiliaid a phartneriaid | | |
| | • Adolygu, gwerthuso a diwygio os oes angen, Bolisi Gosod Tai Cymdeithasol y Cyngor, gan ystyried barn rhanddeiliaid allweddol. | CBSP, LCC | Bydd PGTC newydd yn ei le erbyn Rhagfyr 2025 |
| | • Sicrhau bod rhaglen fonitro ac adolygu yn cael ei chynnal i sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol o gymorth sy'n gysylltiedig â thai yn addas i'r pwrpas ac yn cydymffurfio â Chynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym CBSP. Ystyried ail-bwrpasu neu ailfodelu darpariaeth, os oes angen. | CBSP | Parhaus |
| | • Nodi a chytuno ar setiau data allweddol, sy'n cael eu monitro'n aml ac a all lywio cynllunio strategol. | CBSP, LCC, Darparwyr Comisiynedig | Rhagfyr 2025 |
| | • Bwrw ymlaen â'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu fel y nodir yn y Cynllun. | CBSP, LCC, Darparwyr Comisiynedig, Landlordiaid Sector Preifat | Rhagfyr 2025 |
| | • Ymchwilio i ddatrysiadau tymor hwy i lety dros dro gan gynnwys perchnogaeth uniongyrchol gan CBSC. | CBSP | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

| **Blaenoriaeth Strategol 3: Darparu gwasanaeth hygyrch, hyblyg ac ymatebol i ddiwallu anghenion, drwy weithlu medrus sy’n cael ei werthfawrogi** | | | |
|---|---|---|---|
| Amcan | Gweithred | Cyfrifoldeb | Amserlen (Tymor byr <1 flwyddyn, Tymor canol 1-2 flynedd, Tymor hir >3 blynedd) |
| • Sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb ac yn ymateb i'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol.<br><br>• Ymestyn a gwella swyddogaeth ac effaith y Porth.<br><br>• Gwella ymgysylltiad parhaus â'r rhai sydd â phrofiad byw.<br><br>• Darparu gwybodaeth glir am brosesau a llwybrau a chodi proffil y gwasanaethau cyngor a chymorth digartrefedd | • Adolygu a gwella elfennau gweithredol y Porth Cymorth Tai, gan gynnwys archwilio'r posibilrwydd o gael system rheoli achosion wedi'i theilwra.<br><br>• Sicrhau ymgysylltiad â'r rhai sydd â phrofiad byw fel rhan o ymarferion monitro a chomisiynu parhaus ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai.<br><br>• Gwneud gwelliannau pellach i'r system dai Jigsaw i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion gweithredol y gwasanaeth a'r defnyddiwr gwasanaeth. | CBSP<br><br>CBSP, Darparwyr Comisiynedig<br><br>CBSP | Hydref 2025<br><br>Parhaus<br><br>Rhagfyr 2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| presennol, er mwyn annog unigolion mewn angen tai i fanteisio arnynt.<br><br>• Sicrhau digon o gapasiti o fewn y gweithlu i ateb y galw sy'n cyflwyno.<br><br>• Darparu gwasanaethau drwy weithlu gwydn a medrus, sy'n darparu darpariaeth o ansawdd uchel ac yn hyrwyddo llesiant staff. | • Sicrhau bod staff gwasanaethau mewnol a chomisiynedig yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol.<br><br>• Adolygu strwythurau staffio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i ateb y galw parhaus. | CBSP, Darparwyr Comisiynedig<br><br>CBSP, Darparwyr Comisiynedig | Parhaus<br><br>Parhaus |

| **Blaenoriaeth Strategol 4: Gwella cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ar lefel strategol i wella atal digartrefedd** | | | |
|---|---|---|---|
| Amcan | Gweithred | Cyfrifoldeb | Amserlen (Tymor byr <1 flwyddyn, Tymor canol 1-2 flynedd, Tymor hir >3 blynedd) |
| • Sicrhau perchnogaeth ehangach o ddigartrefedd ymysg rhanddeiliaid er mwyn cefnogi gwaith atal rhagofalol. | • Archwilio cyfleoedd ar gyfer Cyd-gomisiynu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle bo hynny'n briodol. | CBSP, Gwasanaethau Statudol Eraill | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Mwy o rannu data i nodi bylchau, gyda'r potensial i gomisiynu mwy o wasanaethau ar y cyd. | • Nodi a chytuno ar setiau data allweddol gyda sefydliadau partner a all lywio rheoli a monitro perfformiad a all yn ei dro lywio cynllunio strategol yn y dyfodol. | CBSP, LCC, Darparwyr Comisiynedig, Gwasanaethau Statudol Eraill | Rhagfyr 2024 |
| • Sefydlu diwylliant sefydliadol o ymholi lle mae dadansoddi a dehongli data'n llywio'n effeithiol y ddarpariaeth o wasanaethau. | • Adnabod a chwrdd â chynrychiolwyr priodol i drafod dull newydd o gydweithio ar lefel strategol a chytuno ar bersonél allweddol ac amlder a fformat cyfarfodydd yn y dyfodol. | CBSP, LCC, Darparwyr Comisiynedig, Gwasanaethau Statudol Eraill | Rhagfyr 2024 |
| • Rheoli risg drwy randdeiliaid yn dod at ei gilydd i ddod o hyd i atebion a chanlyniadau ar y cyd | • Archwilio dull amlddisgyblaethol ar gyfer gwasanaethau sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc. | CBSP, Darparwyr Comisiynedig | Rhagfyr 2024 |
| • Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cyffredin. | • Parhau i ymgysylltu â chydweithwyr rhanbarthol, gan gynnwys drwy Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg (RCG) | CBSP, Aelodau o'r RCG | Parhaus |
| • Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys cydweithwyr yn y | • Ymgysylltu â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a LCC i hyrwyddo'r trosglwyddiad esmwyth i | CBSP | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol i weithredu'r fframwaith llety a chymorth cenedlaethol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.<br><br>• Archwilio amrywiaeth o ddewisiadau tai o ansawdd da ar gyfer pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal, sy'n hyrwyddo annibyniaeth, iechyd a llesiant estynedig.<br><br>• Gwella cydweithio ar draws tai a gwasanaethau cymdeithasol, gan ddefnyddio cyfrifoldebau rhianta corfforaethol i ddeall ymhellach y rhesymau pam mae ymadawyr gofal yn ddigartref a pha gamau y gellir eu cymryd i atal cyflwyniadau o'r fath. | ymadawyr gofal, yn unol â Strategaeth Rhianta Corfforaethol CBSP. | | |

| Blaenoriaeth Strategol 5: Gwella a chynyddu'r gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymhleth | | | |
|---|---|---|---|
| Amcan | Gweithred | Cyfrifoldeb | Amserlen (Tymor byr <1 flwyddyn, Tymor canol 1-2 flynedd, Tymor hir >3 blynedd) |
| • Datblygu gwasanaethau sy'n gallu cefnogi pobl ag anghenion cymhleth iawn a rhai sydd o bosib yn barhaus. | • Cymryd ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth i nodi bylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau, gan adeiladu dealltwriaeth o'r ymateb amlasiantaethol sydd ei angen i ymateb i anghenion y grŵp cleientiaid hwn. | CBSP, Darparwyr Cymorth, Gwasanaethau Statudol Eraill | Parhaus |
| • Cymryd ymagwedd amlasiantaethol tuag at gefnogi'r rhai ag anghenion cymhleth. | • Adeiladu ar y ddarpariaeth Tai yn Gyntaf bresennol ar gyfer anghenion cymhleth ehangach, a'r ddarpariaeth o ganolfannau asesu i gynyddu'r cyflenwad o lety a gwasanaethau cymorth i'r rhai ag anghenion cymhleth. | CBSP, LCC, Darparwyr Comisiynedig | Parhaus |
| • Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol i atal digartrefedd i'r rhai ag anghenion cymhleth a chyflyrau gydol oes, megis anawsterau dysgu, iechyd | • Ymchwilio i ddatblygu modelau llety, sy'n darparu cymorth dwys arbenigol, gan gynnwys darpariaeth Tŷ Gwlyb (tymor hir). | CBSP, LCC, Darparwyr Comisiynedig | Rhagfyr 20265 |
| | • Adeiladu ar yr ymarfer comisiynu presennol sy'n sicrhau bod gan y rhai sydd â phrofiad byw rôl wrth gomisiynu gwasanaethau sy'n seiliedig ar egwyddorion model cydgynhyrchu. | CBSP, Darparwyr Comisiynedig | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| meddwl neu gyflyrau niwroamrywiol. | | | |

| Blaenoriaeth Strategol 6: Mabwysiadu dull pendant, cydweithredol ac amlddisgyblaethol i gefnogi pobl sy'n cysgu allan | | | |
|---|---|---|---|
| Amcan | Gweithred | Cyfrifoldeb | Amserlen (Tymor byr <1 flwyddyn, Tymor canol 1-2 flynedd, Tymor hir >3 blynedd) |
| • Cadw nifer y bobl sy'n cysgu allan yn isel a sicrhau lle mae cysgu allan yn digwydd, ei fod yn brin, byrhoedlog fydd ddim yn cael ei ailadrodd.<br><br>• Darparu allgymorth pendant i gynorthwyo i adnabod yn gywir a chefnogi pobl sy'n cysgu allan<br><br>• Sicrhau dull amlasiantaethol o gefnogi pobl sy'n cysgu allan. | • Parhau â'r cyfarfodydd Cell Digartrefedd amlasiantaethol a chefnogaeth i gydlynu gwasanaethau ar gyfer pobl a nodwyd fel rhai sy'n cysgu allan<br><br>• Gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid i sicrhau bod gwasanaethau'n cefnogi ymagwedd 'pawb i mewn'.<br><br>• Adolygu'r trefniadau allgymorth presennol, sydd bellach yn cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai. | CBSP, Darparwyr Cymorth, Gwasanaethau Statudol Eraill<br><br>CBSP, LCC Darparwyr Comisiynedig<br><br>CBSP, Darparwyr Comisiynedig | Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>Ebrill 2024 |